Cofnodion **Cyfarfod Blynyddol CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun nos Lun, **13 Mai 2019** am **7.00p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Lewney (**Maer**), y Cynghorydd Gavin Harris (**Dirprwy Faer**) a'r Cynghorwyr Keiran Allsopp-Robson, Stephen Beach, Ken Hawkins, John Wynne Hughes, Menna Jones, Jabez Oakes, Robert Owen-Ellis, Anne Roberts, Dave Snape, Heather Williams, Ifan Wyn ac Emrys Wynne.

1. GWEDDI AGORIADOL

Croesawodd y Maer y Parchedig Dylan Parry Jones, a agorodd y cyfarfod gyda gweddi.

2. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawodd y Maer bwysigion Dinesig, Cynghorwyr, gwahoddedigion a'r cyhoedd i'r Cyfarfod Blynyddol. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Jim Bryan, y Cynghorydd Sir Bobby Feeley a'r Parchedig Stuart Evans.

3. ANERCHIAD Y MAER

Diolchodd y Maer, y Cynghorydd Ian Lewney, i'r pwysigion Dinesig, cyd Gynghorwyr, gwahoddedigion, ffrindiau a theulu am eu presenoldeb yn y Cyfarfod Blynyddol. Dywedodd y bu'n fraint gwasanaethu fel Maer y Dref a'i fod wedi mwynhau mynychu amrywiaeth o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd at rai o uchafbwyntiau ei flwyddyn fel Maer, megis cymryd rhan yng ngorymdaith y Carnifal ar fflôt Tomos y Tanc, gwasanaeth Sul y Cofio gan mlynedd wedi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf a'r daith i Ffowndri Taylor yn Loughborough i weld clychau Eglwys Sant Pedr yn cael eu hatgyweirio. Diolchodd i'w Ddirprwy Faer a chyd-gynghorwyr, ei gaplan a Chlerc y Dref am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Cyhoeddoedd ei fod wedi casglu oddeut £3,000.00 yn ei Gronfa Elusennol a diolchodd i bawb a oedd wedi'i gynorthwyo gyda'i ymdrechion codi arian.

4. CYFLWYNO CYFRANIADAU O GRONFA ELUSENNOL Y MAER

Cyflwynodd y Maer sieciau i MIND Dyffryn Clwyd, Clwb Bowlio Gorphwysfa a grwpiau ieuenctid gwirfoddol yn Rhuthun, sef ATC, Brownies, Geidiaid, Sgowtiaid, Cubs, Clwb Peldroed Ieuenctid, Clwb Rygbi Ieuenctid, Clwb Hoci Ieuenctid, Clwb Criced Ieuenctid a'r Clwb Tennis Ieuenctid.

5. GWOBRAU DINESYDD DA / PERSON IFANC / GRŴP CYMUNEDOL Y FLWYDDYN 2019

Cyhoeddoedd y Maer bod Gwobr Dinesydd Da'r Flwyddyn yn cael ei gyflwyno i Mrs Sylvia Hughes a fu'n weithgar gyda Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun ers 1964 yn ogystal ag Age Concern yn Rhuthun. Roedd hi hefyd yn gwau llawer ac yn rhoi'r eitemau i siop elusen Byddin yr Iawchawdwriaeth a'r digartref. Cyhoeddoedd bod y Grŵp Dinesydd Da wedi penderfynu rhoi gwobr gydradd i Berson Ifanc y Flwyddyn 2019, sef Erin Gwyn a Ceri Wynne Jones, y ddwy'n fyfyrwyr Blwyddyn 12 yn Ysgol Brynhyfryd sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd yn Awelon ac yn mwynhau eu hamser gyda'r trigolion yn fawr iawn. Yn anffodus, gan fod gan y ddwy arholiadau allanol Uwch Gyfrannol y bore wedyn, nid oeddynt yn y cyfarfod. Croesawodd y Maer eu henwebydd, Mrs Manon Wilkinson, Pennaeth Chweched Dosbarth Ysgol Brynhyfryd, i dderbyn y tystysgrifau ar eu rhan. Roedd Erin Gwyn wedi enwebu Banc Bwyd Rhuthun fel ei hachos da, gyda Ceri Wynne Jones yn dymuno rhoi cyfraniad i Ysbyty Cymuned Rhuthun. Cyhoeddwyd mai Grŵp Cymunedol y Flwyddyn oedd Ymlaen Rhuthun – criw gweithgar sy'n hyrwyddo'r dref trwy drefnu digwyddiadau fel Carnifal Rhuthun, y gystadleuaeth bwganod brain a Marchnad Nadolig Rhuthn a'r

Orymdaith Goleuadau ac ati. Daeth criw o gynrychiolwyr i dderbyn y wobr, yn cynnwys y Cadeirydd, Rhian Parry. Roeddynt yn dymuno rhoi i Nyrsys Cymuned Rhuthun a Sgwadron Rhuthun 1918 ATC fel eu hachosion da.

6. DIOLCHIADAU I'R MAER

Diolchodd y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Gavin Harris, i'r Maer ar fin ymddeol, y Cynghorydd Ian Lewney, am ei waith caled ar ran pobl y dref a'r Cyngor Tref. Cyflwynodd Blac y Dref a gwin iddo, ar ran y Cyngor Tref.

7. COFNOD PRESENOLDEB AELODAU

Derbyniwyd manylion am bresenoldeb aelodau yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref a'i bwyllgorau yn ystod blwyddyn ddinesig 2018/2019, a llongyfarchodd y Maer yr aelodau â chanran presenoldeb 100% yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd y Pwyllgorau.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GYMRAEG

Gofynnodd y Maer i Gadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Emrys Wynne, gyflwyno adroddiad ar lafar. Dywedodd y Cynghorydd Wynne ein bod yn ffodus yng Nghyngor Tref Rhuthun bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu defnyddio ochr yn ochr yn naturiol, yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref a chyfarfodydd y Pwyllgorau. Diolchodd i'r cyfieithydd ar y pryd, Marian Rees, am ei chyfieithu safonol. Pwysleisiodd bod y Pwyllgor wedi cynnal cyfarfod ym mis Med ii adolygu Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Tref, a gan fod yr aelodau'n fodlon ei fod yn cael ei weithredu, nid oedd yn ofynnol cynnal rhagor o gyfarfodydd.

9. ETHOL MAER 2019/2020

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Anne Roberts, a eiliwyd gan y Cynghorydd John Wynne Hughes, penderfynwyd ethol y Cynghorydd Gavin Harris yn Faer y Dref am y flwyddyn ddinesig 2019/2020. Yna cafodd ei arwisgo gyda'r Clogyn a Chadwyn y Maer, a chyflwynwyd cadwyn y Consort i Mr Christopher Frost.

10. DATGAN DERBYN Y SWYDD GAN Y MAER

Ar ôl gwneud a llofnodi'r datganiad angenrheidiol, diolchodd y Cynghorydd Gavin Harris i'w gynigydd a'i eilydd, y Maer wedi ymddeol a'i gyd-Gynghorwyr am ei anrhydeddu.

11. ETHOL DIRPRWY FAER 2019/2020

Yn dilyn cynnig gan y Cynghorydd Emrys Wynne, a eiliwyd gan y Cynghorydd Ifan Wyn, penderfynwyd ethol y Cynghorydd Heather Williams yn Ddirprwy Faer am y flwyddyn ddinesig 2019/2020. Yna cyflwynodd y Maer Gadwyn y Dirprwy Faer i'r Cynghorydd Heather Williams ac fe lofnododd y datganiad derbyn y swydd. Diolchodd y Cynghorydd Williams i'w chynigiydd a'i eilydd a'i chyd gynghorwyr am eu cefnogaeth ac addewodd wneud ei gorau i gefnogi'r Maer a'r Cyngor Tref yn ystod y flwyddyn gyffrous o'u blaen.

12. DYDDIADAU NODEDIG

Hysbysodd y Maer yr aelodau y byddai'r Gwasanaeth Sul Dinesig yn cael ei gynnal ddydd Sul, 14 Gorffennaf 2019 yn Eglwys Sant Pedr, gyda chinio arddull parti gardd yng Ngardd yr Arglwydd, Nantclwyd y Dre. Byddai Cinio Elusennol y Maer yn cael ei gynnal nos Sadwrn, 16 Tachwedd 2019, yng Ngwesty Castell Rhuthun.

13. GWEDDI DERFYNOL

Cafodd y cyfarfod ei derfynu gan weddi gan y Parchedig Dylan Parry Jones. Gwahoddodd y Maer bawb a oedd yn bresennol i fwynhau lluniaeth ysgafn ar ôl y cyfarfod.